| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**

**General Certificate of Secondary Education**

641/51

**TGAU**

**HAMDDEN A THWRISTIAETH**

**(DWYRADD)**

**Uned 1: Ymchwilio i Hamdden a Thwristiaeth**

A.M. DYDD MAWRTH, 13 Mehefin 2006

(1½ awr)

**Arholwr yn unig**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran A** | 1 | 8 | |
| | 2 | 14 | |
| | 3 | 13 | |
| | 4 | 9 | |
| **Adran B** | 5 | 22 | |
| | 6 | 16 | |
| | 7 | 8 | |
| | **Cyfanswm** | 90 | |

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os nad oes digon o le i'ch ateb, cewch barhau â'r ateb ar y llinellau yng nghefn y llyfr, ond cofiwch roi rhif y cwestiwn yn gywir yno.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Cynghorir chi i dreulio tua 40 munud ar Adran A a 50 munud ar Adran B.

Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Cyfanswm y marciau ar gyfer y papur hwn yw 90.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

**TUDALEN WAG**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

## ADRAN A (44 marc)

*Cynghorir chi i dreulio tua* **40 munud** *ar yr adran hon.*
*Atebwch* **bob** *cwestiwn, gan ysgrifennu eich atebion yn y lleoedd gwag priodol.*

**1.** Twristiaeth yw un o'r diwydiannau pwysicaf yn y **DU**.

*(a)* Mae twristiaeth yn cynnwys gwahanol resymau dros ymweliadau, megis ymweld ag atyniad.

Rhowch **dri** rheswm arall dros ymweliadau. [3]

1. ..............................................................................................................................

2. ..............................................................................................................................

3. ..............................................................................................................................

*(b)* Cwblhewch y tabl isod, gan roi ail enghraifft o gyrchfannau i dwristiaid yn y lleoedd gwag priodol. [5]

| **Math o gyrchfan** | **Enghraifft 1af** | **2il Enghraifft** |
|---|---|---|
| Lle o ddiddordeb hanesyddol | Stonehenge | |
| Parc Cenedlaethol | Parc Cenedlaethol Eryri | |
| Lleoliad ym myd chwaraeon | Maes Criced *The Oval* | |
| Tref arfordirol | Dinbych-y-pysgod | |
| Llyn | Llyn Tegid *(Bala Lake)* | |

(Cyfanswm = 8)

**2.** Astudiwch **Ffig. 1** sy'n dangos manylion am ***Eurostar.***







**Trên *Eurostar***

Mae *Eurostar* yn cysylltu prif ddinasoedd Ffrainc (Paris), Lloegr (Llundain) a Gwlad Belg (Brwsel). Mae wedi gosod y safon ar gyfer teithio rhyngwladol ar drên. Gyda'r math hwn o wasanaeth, nid oes angen bellach gwthio trwy feysydd awyr, dod o hyd o dacsi a chyrraedd pen eich taith. Darperir yn dda ar gyfer cwsmeriaid ag anghenion arbennig. Dibynnwch ar *Eurostar* i fynd â chi yno – yn gyflym ac yn gysurus.

**Gwasanaeth *Eurostar***

Mae gan bob trên hyd at 15 gweinydd *(attendant)*, y gellir eu hadnabod oherwydd eu swyddwisg *Eurostar*. Mae'r gweinyddion wedi'u cyflogi a'u hyfforddi yn arbennig i ddarparu ar gyfer eich holl anghenion wrth deithio ar *Eurostar*. Mae pob un ohonynt yn siarad Saesneg yn rhugl.

**Mae dosbarth Safonol yn cynnwys:**

- 'Byrbrydau Combo' ar werth yn gyflym o'r bwffe bar a'r cart.
- Pecyn cyffrous i blant, fydd yn cael eu rhoi gan aelodau cast *Disney* wrth Gownter *Disney Express*. Mae'r pecyn yn cynnwys bag sy'n cael ei gau â llinyn ac sy'n gallu cael ei ailddefnyddio, 2 gylchgrawn, pecyn o bennau blaen-ffelt lliw a gêm.
- Mannau arbennig lle gall plant chwarae.

**Mae *Business Premier* yn cynnwys:**

- Mynediad i *Le Salon* (Lolfeydd Dethol *Eurostar*).
- Prydau/lluniaeth o ansawdd uchel sy'n cael eu rhoi i chi yn eich sedd.
- Mynediad *Wifi* yn y Gorsafoedd Terfynol.

Cymerwyd y darn hwn o'r ffynhonnell ganlynol: www.eurostar.co.uk

**Ffig. 1**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

Defnyddiwch **Ffig. 1** i'ch helpu i ateb y cwestiynau canlynol.

*(a)* Enwch **ddau** gynnyrch neu wasanaeth sy'n cael eu darparu ar gyfer teuluoedd sy'n teithio ar *Eurostar.* [2]

1. ....................

2. ....................

*(b)* Awgrymwch **dri** chynnyrch neu wasanaeth **arall** y gallai *Eurostar* eu darparu ar gyfer cwsmeriaid busnes. [3]

1. ....................

....................

2. ....................

....................

3. ....................

....................

*(c)* Yn debyg i bob corff teithio, mae'n rhaid i *Eurostar* ddarparu cyfleusterau ar gyfer cwsmeriaid ag anghenion arbennig. Rhowch **bedwar** cyfleuster arbennig a fyddai'n cael eu darparu gan gyrff teithio o'r fath. [4]

1. ....................

2. ....................

3. ....................

4. ....................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(ch)* Disgrifiwch y prif **fanteision** ac **anfanteision** i gwsmeriaid sy'n teithio o Lundain i Baris ar *Eurostar* o'i gymharu â theithio mewn awyren neu ar fferi. [5]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

(Cyfanswm = 14)

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**3.** Mae'r diwydiant hamdden wedi'i rannu'n nifer o gydrannau allweddol.

*(a)* Ar gyfer **pob** llun a ddangosir rhowch enw'r gydran allweddol gywir. [5]




..............................................................................................................

www.tesco.co.uk




..............................................................................................................

www.wru.co.uk



..............................................................................................................

www.welsh-canoeing.org.uk



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*



www.shakespearience.co.uk

........................................................................................................

## TŶ BWYTA *OLIVER'S*, LLUNDAIN



........................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* Mae 'Gweithgareddau Chwarae Plant' yn gydran allweddol arall o'r diwydiant hamdden. Ar gyfer **un** cyfleuster a astudiwyd gennych, disgrifiwch y prif gynhyrchion a gwasanaethau. [4]

**Enw'r Cyfleuster:** ..........

*(c)* Mae 'Trefnwyr Teithiau' *(Tour Operators)* yn gydran allweddol o'r diwydiant teithio a thwristiaeth. Disgrifiwch **swyddogaeth** y 'Trefnydd Teithiau'. [4]

(Cyfanswm = 13)

**4.** Mae **Ffig. 2** yn hysbyseb ar gyfer swydd Rheolwr Cyffredinol ym Mharciau Thema *Gulliver's.*

GULLIVER'S
Warrington
Matlock Bath
Milton Keynes

**Rheolwr Cyffredinol**

**Cwmni:** Parc Thema *Gulliver's*

**Lleoliad:** Swydd Buckingham, Swydd Gaerlleon a Swydd Derby

Mae gan y grŵp hamdden cyffrous hwn sy'n ehangu'n gyflym swydd wag ar lefel Rheolwr Cyffredinol. Mae'r rôl yn cynnwys rheolaeth lwyr ar weithrediadau dyddiol un o'n tri pharc thema sy'n cyflogi dros 700 o bobl, gan reoli'r adrannau Adwerthu, Arlwyo a Gweithrediadau'r Parc.

Mae gan y cwmni dros 2000 o staff a throsiant blynyddol o fwy na £20 miliwn, a gwnaeth y sefydliad elw o £4 miliwn yn 2004-5.

Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus allu dangos o leiaf 8 mlynedd o brofiad mewn rôl rheoli pobl, ynghyd â'r penderfyniad *(determination)* i weithio yn un o brif grwpiau parciau thema y DU.

Os ydych yn gweithio yn y sector hamdden neu'n dymuno ymuno ag un o'r grwpiau parciau thema sy'n tyfu fwyaf cyflym yn y wlad anfonwch gais ynghyd â *C.V.* a'ch cyflog presennol.

Ffynhonnell a addaswyd: www.leisureopportunities.co.uk

**Ffig. 2**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

Defnyddiwch **Ffig. 2** i'ch helpu i ateb y cwestiwn canlynol.

*(a)* Bydd gofyn i'r Rheolwr Cyffredinol fod â nifer o sgiliau allweddol os yw ef/hi i fod yn llwyddiannus yn ei swydd newydd.

Ticiwch **dri** gosodiad sgìl o'r tabl isod sydd **fwyaf** priodol ar gyfer swydd y Rheolwr Cyffredinol. [3]

| GOSODIAD SGÌL | TICIWCH OS YW'N BRIODOL |
|---|---|
| Gweithredu'r reidiau. | |
| Cynhyrchu cynllun busnes ar gyfer cyflwyno reid newydd. | |
| Rhoi cyfrif am filiynau o bunnoedd sydd ynghlwm wrth incwm a gwariant. | |
| Trafod arian wrth y fynedfa. | |
| Sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi'n dda ac â chymhelliant da. | |
| Derbyn archebion oddi wrth ysgolion. | |

*(b)* Eglurwch pam mae angen '**o leiaf 8 mlynedd o brofiad**' ar gyfer y swydd. [3]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* Yn debyg i'r rhan fwyaf o barciau thema mae *Gulliver's* yn cau yn ystod misoedd y gaeaf ond mae'n cyflogi rhai pobl drwy gydol y flwyddyn. Gelwir y rhain yn staff parhaol.

Ar wahân i'r Rheolwr Cyffredinol rhowch **dair** swydd barhaol sydd i'w cael ym Mharc Thema *Gulliver's*. [3]

1. ..............................

2. ..............................

3. ..............................

(Cyfanswm = 9)

Examiner only
*Arholwr yn unig*

## ADRAN B (46 marc)

*Cynghorir chi i dreulio tua* **50 munud** *ar yr adran hon.*
*Atebwch* **bob** *cwestiwn, gan ysgrifennu eich atebion yn y lleoedd gwag priodol.*

**5.** Mae hamdden yn y cartref wedi dod yn fwyfwy poblogaidd yn y blynyddoedd diwethaf.

(*a*) Eglurwch pam. [6]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* Disgrifiwch y prif weithgareddau **dan do** o ran hamdden yn y cartref y bydd person hŷn *(senior citizen)* yn **fwyaf** tebygol o'u gwneud. [6]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* Disgrifiwch yr **anfanteision** a allai ddigwydd o ganlyniad i'r cynnydd mewn gweithgareddau dan do o ran hamdden yn y cartref. [6]



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(ch)* Eglurwch y **cysylltiadau** sydd gan hamdden yn y cartref â chydrannau allweddol eraill y diwydiant hamdden. [4]

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................................................................

(Cyfanswm = 22)

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**6.** Astudiwch **Ffig. 3** sy'n rhoi gwybodaeth am Ganolfan Gymunedol newydd Parcllyn.

## CANOLFAN GYMUNEDOL NEWYDD PARCLLYN

Mae'r cynlluniau presennol ar gyfer y ganolfan gymunedol newydd yn cynnwys y canlynol:

Canolfan gelfyddydau gydag oriel arddangos.

Mannau gweithdy ar gyfer gwaith coed, gwaith metel a chrefftau tebyg.

Bar / caffi â seddau ar gyfer 40 o bobl.

Neuadd y gellir ei defnyddio ar gyfer derbyniadau *(functions)* a chynyrchiadau theatr.

Toiledau, cyfleusterau i'r anabl, ystafell newid babanod a lle i gael cawod.

Mae'r pwyllgor rheoli yn chwilio am ragor o syniadau er mwyn cwrdd ag anghenion y gymuned i gyd. Cysylltwch â ni ar: 07837 654891.

**Ffig. 3**

*(a)* Awgrymwch sut y gallai'r ganolfan gymunedol gwrdd ag anghenion hamdden y mathau canlynol o drigolion. [4]

1. Pobl yn eu harddegau: ..............................

..............................

..............................

..............................

2. Pobl sy'n hoffi chwaraeon: ..............................

..............................

..............................

..............................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* Eglurwch yr effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol **cadarnhaol a negyddol** y bydd y datblygiad hwn yn debygol o'u cael ar Barcllyn. [6]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* Gan gyfeirio at ardal **a astudiwyd gennych** disgrifiwch sut mae darpariaeth hamdden wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf. [6]

(Cyfanswm = 16)

**7. Asiantaethau gwyliau** *(travel agents)* **y stryd fawr – y dyfodol?**

**Dulliau Archebu Gwyliau Sgïo (y DU)**

| | **2001** | **2002** | **2003** |
|---|---|---|---|
| **Asiantaethau gwyliau y stryd fawr** | 55% | 49% | 44% |
| **Rhyngrwyd** | 3% | 10% | 14% |
| **Eraill** | 42% | 41% | 42% |

*(a)* Disgrifiwch y prif newidiadau yn yr archebion rhwng 2001 a 2003. [2]

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* Eglurwch pam mae'r rhyngrwyd yn cael ei hystyried yn fygythiad i asiantaethau gwyliau y stryd fawr. [6]

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

(Cyfanswm = 8)